SESIWN ADDYSG GORFFOROL: GWNEUD Y GÊM YN DECACH I BAWB

Ystod oedran: 9-14 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn defnyddio cyd-destun y byd pêl-droed i ystyried perthynas pêl-droed â rheolau. Byddant yn ystyried, nid yn unig sut y defnyddir rheolau i wneud y gêm bêl-droed yn "deg", ond hefyd pam y mae'n haws i rai pobl fynd ati i chwarae pêl-droed nag eraill. Bydd dysgwyr yn archwilio sut y gallent ddefnyddio rheolau i wneud y gêm yn fwy cynhwysol, cyn llunio eu rheolau eu hunain ar gyfer twrnamaint pêl-droed "teg" lle mae pawb yn gallu cymryd rhan. Bydd hyn yn annog y dysgwyr i feddwl sut y gall rheolau mewn cymdeithas wneud bywyd yn decach i bawb.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Ystyried sut y gall rheolau wneud y gêm bêl-droed yn "decach" neu'n llai "teg" i bawb sy'n cymryd rhan.
Penderfynu sut i wneud rheolau mewn twrnamaint pêl-droed, a'u newid i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn gyfartal.
Cymharu rheolau chwaraeon â rheolau sy'n helpu i wneud cymdeithas yn lle tecach.</td><td>Deilliannau dysgu
Bydd dysgwyr yn trefnu ac yn cynnal twrnamaint pêl-droed "teg" sy'n galluogi pawb i gymryd rhan lawn ynddo.
Bydd dysgwyr yn trafod a yw ein cymdeithas yn deg, a pha reolau y gellid eu creu i'w helpu i'w gwneud yn decach.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Pam y mae gennym reolau? A yw rheolau'n gwneud pethau'n deg?
A ddylai pawb gael eu trin yn gyfartal?
Sut y mae rheolau'n gwneud y gêm bêl-droed/ysgol/y byd yn decach?
Sut y byddech chi'n gwneud y byd yn lle tecach?</td><td>Adnoddau
Cwpan y Byd: Chwarae Teg? Sioe Sleidiau Addysg Gorfforol
Taflenni gweithgaredd:
1. Helpu pawb i gymryd rhan mewn ffordd deg
2. Arwyddair y tîm</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 1 *(20 mun)*

A yw rheolau'n gwneud pethau'n deg?

Noder: mae'r drafodaeth gychwynnol hon yn bwysig oherwydd y bydd yn helpu dysgwyr i gynllunio a chynnal eu "Twrnamaint Pêl-droed Teg" eu hunain. Mae'n cysylltu â meysydd sydd y tu hwnt i'r cwricwlwm Addysg Gorfforol, a gellid ei gynnal mewn meysydd cwricwlwm eraill (megis Dinasyddiaeth neu ABGI) neu amser allgyrsiol (megis amser cofrestru, amser cylch neu'r gwasanaeth).

- Gofynnwch i'r dysgwyr pam y mae gennym reolau, ac ewch ati i drafod pwysigrwydd rheolau wrth wneud y gêm bêl-droed, yr ysgol a'n byd yn decach. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r cwestiynau ar sleid 3 y sioe sleidiau Addysg Gorfforol i lywio'r drafodaeth.
- Gofynnwch i'r dysgwyr a oes adegau pan nad yw wir yn deg cael yr un rheolau i bawb. Dangoswch sleid 4 ac anogwch y dysgwyr i drin a thrafod hyn. Efallai mai eu hymateb cychwynnol yw bod tegwch yn golygu rhoi'r un rheolau i bawb; ewch ati i'w hannog i feddwl am adegau lle y gallai newid rheolau alluogi pawb i gymryd rhan deg (megis wrth roi lle i bobl o wahanol oed, gallu a rhywedd).
- Dangoswch sleid 5 a gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y ddau lun. Yn eu barn nhw, *pa un sydd decach, a pham?* Defnyddiwch y nodiadau yn y sleid i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng cydraddoldeb (lle mae pawb yn cael eu trin yn yr un ffordd) a thegwch (lle mae pawb yn cael eu trin yn deg, yn ôl eu hanghenion).
- Ewch trwy'r tair enghraifft benodol ar sleidiau 6 i 11 a gofynnwch i'r dysgwyr feddwl sut y gallent ddiwygio'r rheolau i wneud y gemau pêl-droed hyn yn "decach". Er enghraifft, gallai tîm o chwaraewyr ifanc sgorio mwy o bwyntiau fesul gôl na thîm hŷn. Anogwch y dysgwyr i brofi eu rheolau arfaethedig trwy ofyn a yw'r rheol y maent wedi'i dewis yn gwneud y gêm yn decach i bawb, i'r rhan fwyaf, i rai neu i ychydig o'r chwaraewyr.
- Gorffennwch trwy ddangos sleid 12. Tynnwch sylw at y ffaith fod rheolau pêl-droed wedi'u creu i sicrhau bod y gêm yn deg ar gyfer chwaraewyr o allu tebyg. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr a allant feddwl am enghreifftiau lle na fyddai rheolau "normal" pêl-droed yn caniatáu i bawb gymryd rhan yn gyfartal. Faint o broblem allai hyn fod, ym marn y dysgwyr? Ewch ati i'w hannog i uniaethu â safbwyntiau gwahanol. Gallech ddefnyddio *Meddwl, Paru, Rhannu* i wneud hyn. Ceir cyfarwyddiadau yn y nodiadau ar gyfer y sleid hon.

Gweithgaredd 2 *(45 mun+, gan ddibynnu ar fanylder gwaith y dysgwyr wrth gynllunio eu twrnamaint pêl-droed "teg")*

Cynllunio twrnamaint pêl-droed "teg"

- Dangoswch sleid 13 a dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i drefnu twrnamaint pêl-droed "teg", lle y bydd chwaraewyr o wahanol rywedd, galluoedd ac anghenion, ac, o bosibl, oedrannau, yn cymryd rhan gyda'i gilydd. Golyga hyn y bydd angen gwahanol reolau i helpu pawb i gymryd rhan mewn ffordd sy'n gwneud y gêm yn "deg". Gallai hyn fod fesul dosbarth, grŵp blwyddyn, neu'r ar lefel ysgol-gyfan. Neu, gallai dysgwyr hŷn drefnu digwyddiad ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion cynradd lleol.
- Eglurwch y bydd angen i'r dysgwyr ddewis eu rheolau. Anogwch y dysgwyr i drafod a chytuno ar y rheolau, naill ai mewn grwpiau neu fel dosbarth. Gallent gofnodi ac arddangos eu syniadau

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

gan ddefnyddio'r templedi a ddarperir yn *Helpu pawb i gymryd rhan mewn ffordd deg* (Taflen Weithgaredd 1).

- I ymestyn y gweithgaredd, gallai'r dysgwyr ddatblygu eu sgiliau arwain trwy gynllunio a threfnu'r twrnamaint eu hunain. Gellid ystyried y meysydd canlynol:
  - *Pryd a ble y bydd ein twrnamaint pêl-droed "teg" yn cael ei gynnal?*
  - *Sut y byddwn yn rhoi gwybod i eraill am y digwyddiad, a'u hannog i gymryd rhan?*
  - *Sut y byddwn yn trefnu pobl yn dimau?*
  - *Pa offer sydd arnom ei angen?*
  - *Pwy arall yn yr ysgol sydd angen cymryd rhan, a sut?*
  - *Sut y byddwn yn gwerthuso tegwch a llwyddiant ein twrnamaint pêl-droed?*
- Unwaith y byddant wedi penderfynu ar reolau eu twrnamaint, gofynnwch i'r dysgwyr drefnu eu hunain yn dimau. Gallai pob tîm gynrychioli un o'r gwledydd sy'n cymryd rhan yng Nghwpan y Byd 2018. Anogwch bob tîm i benderfynu ar arwyddair ar gyfer eu tîm (neu wlad). Ceir y cyfarwyddiadau hyn ar sleid 14. Ceir templed posibl ar sleid 15 ac yn *Arwyddair y Tîm* (Taflen Weithgaredd 2).
- Gallai dysgwyr arddangos eu rheolau twrnamaint pêl-droed "teg" a'u harwyddeiriau tîm yn yr ystafell ddosbarth neu yn yr ysgol. I ymestyn y gweithgaredd, gallai timau ddylunio baneri i gyfleu eu harwyddeiriau a'u harddangos yn eu digwyddiad.

Gweithgaredd 3 *(amrywiol, yn dibynnu ar nifer y gemau a'r cyfranogwyr)*

Twrnamaint pêl-droed "teg"

- Pan fydd y dysgwyr yn barod, dylent gynnal eu twrnamaint pêl-droed "teg". Gellid gwneud hyn yn amser cwricwlwm Addysg Gorfforol. Anogwch y dysgwyr i dynnu lluniau a chasglu adborth ar y diwrnod (neu ar ôl y digwyddiad) i fesur llwyddiant.

Gweithgaredd 4 (20 mun)

Gwerthuso ein twrnamaint pêl-droed "teg"

- Defnyddiwch sleid 16 i gefnogi dysgwyr i fyfyrio ar lwyddiant eu twrnamaint pêl-droed "teg", a'i werthuso.
- Gallech ymestyn y drafodaeth hon ar degwch a chynwysoldeb i fywyd yn fwy cyffredinol. Mae'r drafodaeth hon yn cysylltu â meysydd y tu hwnt i'r cwricwlwm Addysg Gorfforol, a gellid ei chynnal mewn meysydd cwricwlwm eraill (megis dinasyddiaeth neu ABGI) neu yn ystod amser allgyrsiol (megis amser cofrestru, amser cylch neu'r gwasanaeth). Yn ogystal, mae'n gyfle gwych i ddysgwyr gysylltu'r hyn a ddysgir ganddynt ar draws meysydd y cwricwlwm.
- Defnyddiwch sleidiau 17 i 18 i gefnogi'r dysgwyr i gymhwyso'r hyn a ddysgir ganddynt am reolau i fywyd yn fwy cyffredinol. *A yw rheolau'n bwysig i helpu i wneud cymdeithas yn decach?*
- Anogwch y dysgwyr i feddwl am rai enghreifftiau. Efallai y byddant yn meddwl am rai pethau mwy amlwg, megis cyfreithiau troseddol. Fodd bynnag, ewch ati i'w hannog i feddwl am reolau eraill, a sut y mae'n decach, weithiau, gwneud rheolau penodol yn wahanol i wahanol bobl.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Rhoddir enghraifft ar sleid 19, sy'n dangos un achos (treth), lle gallai rheolau gwahanol helpu i wella tegwch mewn cymdeithas. Hefyd, ewch ati i annog y dysgwyr i feddwl am bwysigrwydd llywodraethau fel y rhai sy'n pennu'r rheolau trwy wrando ar y bobl maent yn eu cynrychioli.

- Dangoswch sleid 20. Eglurwch mai yn 2017 y cafwyd y cynnydd mwyaf erioed mewn biliwnyddion, gydag un biliwnydd newydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr yn amlach na phob dau ddiwrnod. Cynyddodd cyfoeth y biliwnyddion hyn, y mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn ddynion, $762bn mewn 12 mis. Gallai'r cynnydd enfawr hwn fod wedi rhoi terfyn ar dlodi eithafol y byd saith gwaith drosodd. Yn hytrach, yn 2017, aeth 82% o'r cyfoeth a grëwyd ledled y byd i'r 1% cyfoethocaf, tra na welwyd cynnydd o gwbl yng nghyfoeth hanner tlotaf y byd[1]. Trafodwch yr ystadegau hyn gyda'r dysgwyr. *A ydynt yn meddwl bod yr anghydraddoldeb hwn yn deg?* Gorffennwch trwy ddangos sleid 21, a thrafod syniadau'r dysgwyr am y rheolau fyddai'n helpu i wneud ein byd yn decach.

Syniadau pellach

- Ymchwiliwch i sut y mae FIFA yn ceisio gwneud Cwpan y Byd yn fwy cynhwysol. Gallai'r dysgwyr ymchwilio i sut y mae FIFA yn pennu safleoedd timau ar y rhestr detholion, yn ogystal â phroses gymhwyso bresennol Cwpan y Byd (gweler y nodyn isod). Gallai'r dysgwyr fyfyrio ar ba mor "deg" yw'r prosesau hyn, a'u trafod, cyn meddwl am eu syniadau eu hunain. Mae gwneud Cwpan y Byd yn fwy cynhwysol yn heriol. Er enghraifft, er y byddai'n golygu bod gan dimau cryfach a gwannach o wahanol rannau o'r byd gyfle i gystadlu, gallai'r gwahaniaethu cadarnhaol – a allai fod ei angen i gefnogi hyn – arwain at gemau pencampwriaeth rhwng timau o alluoedd gwahanol iawn. Gallai hefyd arwain at rai o'r timau cryfach yn methu â chymhwyso, gan fod llai o leoedd ar gael, o bosibl, i dimau o gyfandiroedd cryfach.

  Nid yw'n hawdd datrys y materion hyn ac mae'n destun dadl go iawn. I gael arweiniad, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol i reoli materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth, gweler canllaw Oxfam, *Teaching Controversial Issues,* a ddiweddarwyd yn ddiweddar:
  www.oxfam.org.uk/education/resources/teaching-controversial-issues

  Noder:

  Mae FIFA yn cyfrifo'r safleoedd trwy edrych ar gyfanswm nifer pwyntiau tîm dros y pedair blynedd diwethaf; gall timau ennill pwyntiau o'r gemau y maent yn eu chwarae gyda gwledydd eraill. Y mwyaf llwyddiannus yw tîm, y mwyaf o bwyntiau y mae'n eu hennill a'r uchaf yw ei safle. I gael rhagor o wybodaeth am y weithdrefn pennu safleoedd, gweler: www.fifa.com/fifa-world-ranking/procedure/men.html

  Cynhelir twrnameintiau cymhwyso Cwpan y Byd ym mhob cyfandir (Affrica, Asia, Gogledd America, De America, Ewrop ac Awstralasia). Ar gyfer pob un o'r twrnameintiau hyn, mae FIFA'n penderfynu ymlaen llaw faint o leoedd cymhwyso a fydd ar gyfer pob cyfandir, yn seiliedig ar niferoedd a chryfder cymharol y timau sy'n cymryd rhan. Mae mwy o dimau o Ewrop yng Nghwpan y Byd gan fod FIFA yn dyrannu mwy o leoedd ar eu cyfer. Mae'r wlad sy'n cynnal Cwpan y Byd (sef Rwsia yn 2018) yn cymhwyso yn awtomatig. Am ragor o fanylion, gweler: www.fifa.com/worldcup/preliminaries/index.html

[1] D Alejo Vázquez Pimentel, I Macías Aymar a M Lawson (2018). *Reward Work, Not Wealth: To end the inequality crisis, we must build an economy for ordinary working people, not the rich and powerful.* Oxfam.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Ymchwiliwch i'r ffyrdd eraill y mae pêl-droed yn cael ei gwneud yn fwy cynhwysol. Ewch ati i ddysgu am Gwpan Anabledd y Gymdeithas Bêl-droed, sy'n cynnwys nifer o wahanol gystadlaethau partner nam-benodol (megis Cwpan y Gadair Bŵer, Cwpan Parlys yr Ymennydd, Cwpan i rai sydd wedi colli rhan o'u corff, Cwpan y Deillion a Chwpan y Byddariaid).
    - Gweler: www.thefa.com/get-involved/player/disability/disability-cup-overview
- Ewch i ddysgu am y Pwyllgor Chwarae Teg Rhyngwladol, sy'n bodoli i hyrwyddo chwarae teg ledled y byd. Bob blwyddyn, mae'r pwyllgor yn dyfarnu gwobrau Chwarae Teg i bobl sydd wedi bod yn llysgenhadon chwarae teg ardderchog. Ceir Gwobr Chwarae Teg FIFA hefyd, sy'n cael ei chyflwyno bob blwyddyn i unigolion, timau, cefnogwyr, gwylwyr neu gymdeithasau pêl-droed sydd wedi ymddwyn yn ysbryd chwarae teg a thosturi. Gofynnwch i'r dysgwyr enwebu cyfoedion sydd, yn eu barn nhw, wedi hyrwyddo chwarae teg, boed hynny yn y maes chwaraeon neu mewn gweithgareddau eraill. Trefnwch seremoni wobrwyo Chwarae Teg bob blwyddyn neu bob tymor.
    - www.fairplayinternational.org/
    - www.fifa.com/sustainability/fair-play.html

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni. Er bod yr adnodd hwn yn cyfeirio at Gwpan y Byd drwyddo draw, defnydd golygyddol yn unig yw hwn ac nid oes cysylltiad mewn unrhyw ffordd rhwng FIFA a'r adnodd hwn.

Helpu pawb i gymryd rhan mewn ffordd deg

Taflen weithgaredd 1

Rheol 1:

Rheol 2:

Rheol 3:

Rheol 4:

Hawlfraint© Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Arwyddair y tîm

Taflen weithgaredd 2

Arwyddair ein tîm:

Hawlfraint© Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.